

GWASANAETHAU MYFYRWYR CAERFYRDDIN GWASANAETH CWNSELA

O ddydd Llun 24ain Medi 2018, bydd Gwasanaeth Cwnsela PCYDDS ar gampws Caerfyrddin yn treialu System Rheoli Cwnsela newydd ar-lein. Mae hyn yn golygu y bydd angen i fyfyrwyr a staff sy'n gofyn am apwyntiad cwnsela gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cwnsela cyn y bydd apwyntiad yn cael ei gynnig.

Mae'r ffurflen gofrestru ar gyfer myfyrwyr a staff ar gael yma:

<https://live.uniticms.com/uwtsdCarmarthen/>

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gofrestru, cynigir apwyntiad cychwynnol i chi gydag un o'n cwnselwyr, er mwyn trafod eich anawsterau a dynodi'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ar eich cyfer chi. Ar ddiwedd eich apwyntiad cyntaf, mae'n bosibl y byddwch yn cael cynnig cwnsela unigol tymor byr (chwe sesiwn) gydag un o'n cwnselwyr, yn cael eich cyfeirio at gynghorydd iechyd meddwl neu asiantaeth allanol.

Mae'n cymryd ychydig o funudau i lenwi'r ffurflen ac mae'n rhoi gwybodaeth i ni allu deall eich pryderon yn well. Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol, eich cwnselydd yn unig fydd yn ei gweld ac ni chaiff ei rhannu heb eich cydsyniad chi.

Anfonir cadarnhad eich bod wedi cofrestru i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych. Os na fyddwch wedi derbyn e-bost i gadarnhau, neu os na fyddwn wedi cysylltu â chi i drefnu apwyntiad, yna ailgyflwynwch eich cais cofrestru neu cysylltwch â Gwasanaethau Myfyrwyr ar: studentservices@uwtsd.ac.uk neu 01267 676830

Bydd y system yn anfon e-bost atoch yn nodi'r apwyntiad nesaf sydd ar gael. Cewch gyfle i reoli'r apwyntiad hwnnw trwy ei dderbyn neu ddewis un gwahanol.

Ar ôl i chi gadarnhau apwyntiad, byddwch yn derbyn e-bost o gadarnhad yn awtomatig yn nodi'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad.
48 awr cyn yr apwyntiad byddwch yn derbyn neges i'ch atgoffa o'r amser, y dyddiad a'r lleoliad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Gwasanaethau Myfyrwyr ar studentservices@uwtsd.ac.uk neu 01267 676830.

STUDENT SERVICES CARMARTHEN COUNSELLING SERVICE

As from Monday 24th September 2018, the UWTSd Counselling Service at the Carmarthen campus will be trialling a new online Counselling Management System (CMS). This means students and staff who request a counselling appointment will need to register with the Counselling Service before an appointment will be offered.

The registration form for students and staff can be accessed here:

<https://live.uniticms.com/uwtsdCarmarthen/>

Once we receive your registration form, you will be offered an initial appointment with one of our counsellors in order to discuss your difficulties and to identify the most appropriate way forward for you. At the end of your first appointment, you may be offered short-term (six session) individual counselling with one of our counsellors, a referral to the mental health advisor or to an external agency.

The form takes a few minutes to complete and provides us with information to better understand your concerns. This information is confidential, will only be seen by your counsellor and will not be shared without your consent.

Confirmation of your registration will be sent to the email address you provided. If you fail to receive a confirmation email or you fail to be contacted by us to arrange an appointment then please re-submit your registration request or contact Student Services at: studentservices@uwtsd.ac.uk or 01267 676830

The system will email you with the next available appointment. You will have the opportunity to manage that appointment by accepting it or choosing a different one.

Once you have confirmed an appointment, you will automatically receive a confirmation email with the date, time and location.
48 hours before the appointment you will receive a reminder of the time, date and location.

Any queries, please contact Student Services at studentservices@uwtsd.ac.uk or 01267 676830